

**COFNODION CYFARFOD SENEDD PRIFYSGOL CAERDYDD A GYNHALIWDYD  
DDYDD MERCHER 24 TACHWEDD 2021, DRWY FIDEOGYNHADLEDD**

**PRESENOLDEB**

Yr Athro Colin Riordan	P	Yr Athro Wolfgang Maier	
Yr Athro Rudolf Allemann	P	Emmajane Milton	P
Yr Athro Stuart Allen	P	Claire Morgan	P
Yr Athro Rachel Ashworth	P	Yr Athro Damien Murphy	A
Yr Athro Gill Bristow	A	Yr Athro Jim Murray	P
Yr Athro Marc Buehner	P	Larissa Nelson	
Jane Chukwu	P	Joanne Pagett	P
Kelsey Coward	P	Dr Jo Patterson	P
Yr Athro Trevor Dale	P	Yr Athro Tîm Phillips	P
Dr Jane Davies	P	Jude Pickett	P
Rhys Denton	P	Dr Jamie Platts	P
Hannah Doe	P	Dr Emma Richards	P
Georgina East	P	Yr Athro Steve Riley	P
Helen Evans	P	Sebastian Ripley	P
Luke Evans	P	Dr Josh Robinson	P
Tomos Evans	P	Sarah Saunders	P
Yr Athro Dylan Foster Evans	P	Dr Hannah Shaw	
Graham Getheridge	P	Dr Andy Skyrme	P
Yr Athro Kim Graham	P	Yr Athro Peter Smowton	P
Dr John Groves	P	Dr Zbig Sobiesierski	P
Yr Athro Mark Gumbleton		Tracey Stanley	P
Yr Athro Ian Hall		Yr Athro Ceri Sullivan	P
Dr Thomas Hall	P	Yr Athro Petroc Sumner	P
Yr Athro Ken Hamilton	P	Dr Catherine Teehan	P
Dr Natasha Hammond-Browning	P	Dr Christoph Teufel	P
Yr Athro Ben Hannigan	P	Gail Thomas	P
Dr Alexander Harmer	P	Dr Onur Tosun	A
Ms Karen Harvey-Cooke	P	Dr Laurence Totelin	P
Dr Athanasios Hassoulas	A	Yr Athro Chris Tweed	A
Yr Athro James Hegarty	P	Yr Athro Damian Walford Davies	P
Yr Athro Mary Heimann	P	Matt Walsh	P
Dr Monika Hennemann	P	Yr Athro Ian Weeks	P
Dr Kersty Hobson	A	Yr Athro Keith Whitfield	P
Yr Athro Karen Holford	P	Yr Athro David Whitaker	P
Yr Athro Joanne Hunt	P	Yr Athro John Wild	P
Yr Athro Nicola Innes	A	Alexandra Williams	P
Yr Athro Dai John	P	Yr Athro Martin Willis	
Yr Athro Urfan Khaliq	P	Dr Liz Wren-Owens	P
Yr Athro Alan Kwan	P	Yr Athro Jianzhong Wu	P
Y Dr Catherine Laing	P		

**YN BRESENNOL**

Ms Katy Dale (Cofnodion)  
 Hannah Darnley  
 Laura Davies  
 Rob Davies  
 Rhodri Evans  
 Yr Athro Claire Gorrara  
 Rashi Jain  
 Yr Athro Wenguo Jiang  
 Dr Emma Kidd  
 Tom Hay  
 Sue Midha

Dr Jonathan Nicholls  
 TJ Rawlinson  
 Dr Andrew Roberts  
 Ruth Robertson  
 Yr Athro Phil Stephens  
 Yr Athro Jason Tucker  
 Yr Athro Andrew Westwell  
 Martine Woodward  
 Rob Williams  
 Dr Liz Wren-Owens  
 Simon Wright (Ysgrifennydd)

**901 CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y Penaethiaid Ysgol newydd, yr Athro Gill Bristow a Matt Walsh. Nodwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i helpu i gynhyrchu'r rhestr bresenoldeb a'r cofnodion.

**902 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

NODWYD y byddai'r ymddiheuriadau yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

**903 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020 (papur 20/433) yn gofnod cywir.

**904 MATERION YN CODI**

NODWYD Y CANLYNOL

904.1 roedd Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn adolygu llythyr gan UCU yn gofyn am i Ddyrchafiadau Academaidd Ilwyddiannus gael eu hôl-dyddio i fis Awst 2021.

**905 DATGAN BUDDIANT**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r gofyniad iddynt ddatgelu unrhyw fuddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol a allai ddylanwadu ar eu barn. Dylid datgelu buddiannau cyn i eitem gael ei drafod, a dylai'r unigolyn dan sylw naill ai adael y cyfarfod neu beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth, fel y bo'n briodol ar gyfer y rhan honno o'r agenda.

NODWYD na wnaeth unrhyw aelod ddatgelu unrhyw fuddiannau.

**906 ADRODDIAD GAN YR IS-GANGHELLOR**

Derbyniwyd papur 20/439 'Adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Senedd'.  
Cyflwynwyd y papur gan yr Is-Ganghellor.

**NODWYD Y CANLYNOL**

- 906.1 penodwyd Jonathan Nicholls gan y Brifysgol i gynnal yr Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu ac roedd yn arsylwi ar y cyfarfod hwn, ynghyd â nifer o gyfarfodydd pwyllgor eraill; byddai Jonathan yn cyfarfod ag aelodau'r Senedd ar y Cyngor ac ar wahân gydag aelodau ychwanegol o'r Senedd o amrywiaeth o grwpiau staff;
- 906.2 parhaodd y Brifysgol i adolygu'r dyddiad ar gyfer ailddechrau addysgu wyneb yn wyneb a byddai'r tasglu coronafeirws yn cynnal adolygiad pellach ar adeg diweddariad Llywodraeth Cymru a ddisgwyllir tua 12 Mawrth 2021;
- 906.3 roedd y Brifysgol wedi llwyddo i gyhoeddi tap bondiau gan arwain at enillion gros o £128.96m; Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r tap bondiau, yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio;
- 906.4 mewn perthynas ag Adnewyddu Academaidd, roedd y Brifysgol yn ymgynghori drwy Fyrddau Ac Ysgolion y Coleg ac roedd hyn yn cael ei yrru gan staff academaidd;
- 906.5 disgwyllid y byddai'r broses bresennol yn cael ei defnyddio i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o gynigion neu newidiadau sy'n deillio o Adnewyddu Academaidd, gan ystyried ASQC a'r Senedd yn ôl y gofyn;
- 906.6 awgrymwyd y byddai ymgynghori â Byrddau Astudiaethau o fudd i'r rhaglen Adnewyddu Academaidd;
- 906.7 nodwyd bod yr adolygiad o lywodraethu addysg yn adolygu'r llinellau adrodd rhwng y Senedd a'r Byrddau Astudiaethau, gan egluro sut roedd materion academaidd yn cael eu cynnwys drwy strwythurau llywodraethu ysgolion a Phrifysgolion.

**PENDERFYNWYD Y CANLYNOL**

- 906.8 dylai Ddirprwy Is-Ganghellorion y Coleg a Phenaethiaid Ysgolion sicrhau bod cynigion sy'n ymwneud ag Adnewyddu Academaidd yn destun ymgynghoriad priodol o fewn Ysgolion, disgyblaethau a Byrddau Astudiaethau.

**907 ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU AC ANSAWDD ACADEMAIDD (ASQC)**

Derbyniwyd papurau, 20/442 'Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Academaidd ac Ansawdd (ASQC) a 20/4433 'Cofnodion

ASQC 19 Ionawr 2021'. Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y papur.

**NODWYD Y CANLYNOL**

- 907.1 rhoddodd y papur drosolwg o faterion allweddol a ystyriwyd gan ASQC yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2021;
- 907.2 nid oedd unrhyw eitemau i gael eu cymeradwyo gan y Senedd;
- 907.3 mewn perthynas â mesurau COVID, cynhaliwyd adolygiad o'r pecyn cymorth a diolchwyd i Lywydd ac Is-lywydd Addysg Undeb y Myfyrwyr am eu cyfraniad i'r gwaith hwn; roedd gweithdrefn gwyno'r myfyrwyr hefyd wedi'i haddasu i sicrhau ei bod yn berthnasol i faterion penodol COVID-19;
- 907.4 roedd paratoadau wedi dechrau ar gyfer sesiwn academaidd 2021/22, er gwaethaf yr ansicrwydd parhaus ynghylch y cyfyngiadau; roedd cymorth a pholisïau ar gyfer dysgu digidol yn cael eu datblygu, ynghyd ag egwyddorion ar gyfer asesiadau digidol;
- 907.5 roedd adborth gan arholwyr allanol a addysgwyd ar gyfer sesiwn 2019/20 wedi bod yn gadarnhaol, a chadarnhaodd fod y camau a gymerwyd mewn perthynas â gweithredu diwydiannol a chyfyngiadau COVID-19 wedi diogelu safonau academaidd.

**908 ADRODDIAD TROSOLWG CYFLWYNO CYF 2021**

Derbyniwyd papurau 20/441HC 'Adroddiad Trosolwg Cyflwyno REF 2021'. Y Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter a gyflwynodd y papur.

**NODWYD Y CANLYNOL**

- 908.1 [HEPGORWYD]
- 908.2 [HEPGORWYD]
- 908.3 [HEPGORWYD]
- 908.4 [HEPGORWYD]
- 908.5 [HEPGORWYD]
- 908.6 [HEPGORWYD]
- 908.7 [HEPGORWYD]
- 908.8 [HEPGORWYD]

**909 DATGANIAD POLISI AR ASESU YMCHWIL YN GYFRIFOL**

Derbyniwyd papurau 20/421 'Datganiad Polisi ar Asesu Ymchwil Cyfrifol'.

Y Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter a gyflwynodd y papur.

NODWYD Y CANLYNOL

- 909.1 dilynodd y polisi hwn gan y Brifysgol yn llofnodi'r Datganiad ar Asesu Ymchwil (DORA) ac roedd yn bwysig o ran gosod safonau ynghylch defnyddio DORA.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 909.2 argymhell i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Polisi ar Asesiad Ymchwil Cyfrifol.

**910 ADRODDIAD DIWEDD CYLCH AR DDERBYN MYFYRWYR 2020**

Derbyniwyd papur 20/434 'Derbyniadau 2020 Adroddiad Diwedd Cylch .' Dywedodd Rudolf Allemann, y Rhag Is-Ganghellor, Rhyngwladol a Recriwtio Myfyrwyr a Phennaeth Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg:

NODWYD Y CANLYNOL

- 910.1 bu cynnydd o tua 15% mewn ceisiadau, sy'n cyfateb i tua 10,000 o geisiadau ychwanegol; er bod hyn yn gadarnhaol, bu angen cyflwyno adnoddau ychwanegol i gefnogi derbyniadau;
- 910.2 estynnodd yr Athro Allemann ei ddiolch i'r holl staff a fu'n rhan o'r broses dderbyn, a oedd wedi gweithio gyda'i gilydd i gyflawni canlyniadau gwych o dan amgylchiadau anodd;
- 910.3 roedd clirio wedi mynd yn dda, er gwaethaf cymhlethdodau rheoliadau cadw pellter cymdeithasol;
- 910.4 cafwyd perfformiad cryf o ran recriwtio myfyrwyr cartref, yn enwedig gan y rhai yng Nghymru, sy'n debygol o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar deithio ac awydd i aros yn nes adref;
- 910.5 ni fu cynnydd sylweddol yn y rhai sy'n gohirio eu hastudiaethau, fel y gellid bod wedi disgwyl;
- 910.6 roedd y tariff wedi cynyddu ym Mhrifysgol Caerdydd ac, er nad oedd yn amlwg eto a oedd hyn yn cael ei adlewyrchu ar draws y sector, roedd yn fwyaf tebygol o ganlyniad i'r graddau uwch a ddyfarnwyd gan asesiadau athrawon;

- 910.7 byddai newid mewn demograffeg yn golygu y byddai nifer fwy o bobl ifanc 18 oed eleni;
- 910.8 nid oedd recriwtio Myfyrwyr Ôl-raddedig Rhyngwladol wedi cyrraedd y targed ac roedd effeithiau'r pandemig yn effeithio'n arbennig arnynt;
- 910.9 cafwyd cefnogaeth gan lywodraeth y DU mewn perthynas â fisâu i fyfyrwyr rhyngwladol i'w galluogi i ddod i'r DU i astudio.

## **911 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASG PRIFYSGOL CAERDYDD**

Derbyniwyd papur 20/435 'Adroddiad Blynyddol Gwasg Prifysgol Caerdydd'. Cyflwynodd Llyfrgellydd y Brifysgol y papur.

NODWYD Y CANLYNOL

- 911.1 parodd twf iach ym mhorthffolio'r Wasg;
- 911.2 byddai rhai allbynnau o'r Wasg yn cael eu cynnwys yng nghyflwyniad REF 2021.

## **912 PARTNERIAETH STRATEGOL GYDA PHRIFYSGOL WAIKATO**

**Derbyniwyd papurau 20/436 'Partneriaeth Strategol gyda Phrifysgol Waikato'**. Dywedodd Rudolf Allemann, y Rhag Is-Ganghellor, Rhyngwladol a Recriwtio Myfyrwyr a Phennaeth Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg:

NODWYD Y CANLYNOL

- 912.1 cynigiodd y papur Bartneriaeth Strategol gyda Phrifysgol Waikato yn Seland Newydd;
- 912.2 mae ganddo ffocws cryf ar addysgu a phrofiad myfyrwyr yn ogystal ag ar ymchwil;
- 912.3 roedd hwn yn ddatblygiad braf ac yn adlewyrchu'r gallu i gydweithwyr gydweithio hyd yn oed o dan amgylchiadau anodd COVID-19;
- 912.4 cafodd cytundeb symudedd ei lofnodi rhwng y ddau sefydliad yn 2017 a Phrifysgol Caerdydd oedd y gyrchfan fwyaf poblogaidd i fyfyrwyr o Waikato; cafodd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ei lofnodi rhwng y ddau sefydliad i weithio tuag at bartneriaeth strategol;
- 912.5 cafwyd cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i'r bartneriaeth hon;
- 912.6 mae lefel uchel o ymgysylltu a rhyngweithio rhwng staff yn y ddau sefydliad;
- 912.7 roedd cysylltiadau hefyd rhwng Iechyd Dosbarth Caergaint yn Christchurch a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

912.8 argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r Bartneriaeth Strategol gyda Phrifysgol Waikato.

**913 DIFFINIAD IHRA O WRTHSEMITIAETH**

Derbyniwyd papurau 20/436 'Diffiniad IHRA o wrthsemitiaeth'. Cyflwynodd y Rhag Is-Ganghellor, Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol y papur

## NODWYD Y CANLYNOL

- 913.1 roedd y papur yn ymwneud â materion cymdeithasol cymhleth ac emosiynol;
- 913.2 roedd y papur wedi bod gerbron nifer o bwyllgorau ar gyfer trafodaeth golegol ac agored ac ni fwriadwyd iddi fod yn ddogfen ragnodol ("fait accompli");
- 913.3 roedd y papur yn cynnig y dylid mabwysiadu diffiniad Cynghrair Cofio Rhyngwladol yr Holocost o Wrthsemitiaeth a diffiniad Grŵp Seneddol Hollbleidiol Mwslimiaid Prydain o Islamoffobia;
- 913.4 cynhaliwyd trafodaethau rhagarweiniol ar fabwysiadu diffiniad penodol ar wrthsemitiaeth mewn sawl cyfarfod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol yn 2020 ac roedd yr Athro Walford Davies wedi cael y dasg o gyflwyno papur ar hyn a diffiniad rhagnodedig o Islamoffobia yn rhinwedd ei swydd fel aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol sy'n gyfrifol am grefydd a chred;
- 913.5 cynhaliwyd trafodaeth werthfawr yn y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), ac roedd y papur wedi cael ei ddiwygio yn dilyn y ddau gyfarfod; roedd y Pwyllgor EDI wedi pleidleisio i argymell y papur, ond nid oedd hyn yn unfrydol;
- 913.6 nod y papur oedd amlinellu'r cyd-destun ehangach (deddfwriaethol, cymdeithasol, gwleidyddol a sefydliadol) o fabwysiadu'r diffiniadau a rhoi manylion am fanteision a risgiau mabwysiadu neu beidio â mabwysiadu'r diffiniadau;
- 913.7 roedd manylion penderfyniadau a wnaed gan sefydliadau eraill Grŵp Russell mewn perthynas â hyn wedi'u cynnwys yn y papur; roedd Coleg Prifysgol Llundain (UCL) wedi pleidleisio'n ddiweddar i ddisodli diffiniad yr IHRA gyda diffiniad arall nad yw wedi'i ddiffinio eto, yn dilyn adroddiad mewnol gan weithgor ar hiliaeth a rhagfarn;
- 913.8 roedd y papur hefyd yn cynnwys mapio diffiniad yr IHRA yn erbyn polisïau presennol y Brifysgol;
- 913.9 cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;

- 913.10 byddai mabwysiadu'r diffiniadau yn rhan o sicrhau bod grwpiau crefyddol ac ethnig y Brifysgol yn teimlo'n ddiogel a byddai'n un offeryn ymhlith eraill i nodi a mynd i'r afael â digwyddiadau posibl o wrthsemitiaeth ac Islamoffobia;
- 913.11 awgrymwyd y dylid oedi'r cynnydd ar yr eitem hon er mwyn caniatáu cyfle i adolygu a thrafod ymhellach;
- 913.12 dadleuwyd bod diffiniad yr IHRA (drwy ei enghreifftiau) yn cyfuno beirniadaeth o Israel gyda gwrth-Semitiaeth ac nad oedd yn gadael fawr ddim lle i wneud sylwadau ar gydymffurfiaeth Israel â chyfraith ryngwladol; dadleuwyd ymhellach fod yr IHRA yn grŵp lobïo heb awdurdod cyfreithiol a bod y diffiniad yn groes i gyfraith Ryngwladol;
- 913.13 nid oedd diffiniad yr IHRA yn gyfreithiol rwymol a phan gaiff ei ddefnyddio byddai'n cael ei ddehongli i fod yn gyson â dyletswyddau statudol y Brifysgol; nid oedd yn atal beirniadaeth ddilys o Israel ond gallai helpu i atal mathau o wrthsemitiaeth;
- 913.14 eglurwyd, er bod diffiniad yr IHRA wedi'i seilio'n fras ar un a gynigiwyd o'r blaen gan y Ganolfan Fonitro Ewropeaidd ar Hiliaeth ac Senoffobia, nid oedd diffiniad yr IHRA wedi cael ei fabwysiadu gan y corff hwnnw;
- 913.15 roedd yn bwysig cofio cyd-destun ehangach rhyddid mynegiant a byddai'r Brifysgol yn destun craffu yn y cyd-destun hwn o ystyried ei bod yn awdurdod cyhoeddus ac roedd Deddf Hawliau Dynol 1998 yn berthnasol;
- 913.16 gall mabwysiadu diffiniadau ar gyfer dau grŵp yn unig awgrymu mwy o amddiffyniad iddynt nag i grwpiau crefyddol ac ethnig eraill.
- 913.17 Nodwyd ei bod yn bwysig dadlau am y materion hyn a'u trafod a dangos ymwybyddiaeth o'r sensitifrwydd presennol yn y meysydd hyn;
- 913.18 bu cryn bwysau ar Brifysgolion Lloegr i fabwysiadu diffiniad yr IHRA, ond nid oedd hyn yn wir yng Nghymru;
- 913.19 pwysleisiodd yr Is-Ganghellor gefnogaeth y Brifysgol i'w staff a myfyrwyr Iddewig ac yn y gymuned ehangach.

#### PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 913.20 oedi dilyniant ar yr eitem hon ac argymhell i'r Cyngor fod trafodaeth ac adolygiad pellach.

#### **914 IS-STRATEGAETH ADDYSG A MYFYRWYR**

Derbyniwyd papur 20/440C 'Is-Strategaeth Addysg a Myfyrwyr'.  
Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y papur.



## NODWYD Y CANLYNOL

- 914.1 cafodd yr is-strategaeth ei hail-lunio yn sgil Ail-lunio'r Ffordd Ymlaen ac i ystyried effaith COVID-19;
- 914.2 ymgynghorwyd yn agored am y diwygiadau ar draws y sefydliad, ac fe'u trafodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Senedd;
- 914.3 Yn sgil COVID-19, roedd cynwysoldeb a'r amgylchedd dysgu digidol wedi cael mwy o amlygrwydd yn y strategaeth;
- 914.4 roedd Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr yn cael ei ddatblygu, a fyddai'n gynllun newid tair blynedd yn seiliedig ar y strategaeth; y gobaith oedd rhannu drafft cyntaf o'r cynllun ar ôl y Pasg ac roedd y Brifysgol hefyd yn adolygu'r llywodraethu a'r arweinyddiaeth yn y maes hwn;
- 914.5 byddai gweithredu'r strategaeth yn cael ei flaenoriaethu i sicrhau nad yw hyn yn rhoi gormod o faich ar lwyth gwaith staff.

**915 DIWYGIADAU I ORDINHAD 8**

Derbyniwyd papur 20/456C 'Gwelliant i Ordinhad 8'. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Brifysgol yr eitem.

## NODWYD Y CANLYNOL

- 915.1 cyflwynwyd yr Ordinhad wedi'i ddiweddarau i'r Senedd i gynnwys y geiriad diwygiedig fel y cytunwyd arno gan y Senedd ym mis Mehefin 2019 gael ei nodi;
- 915.2 Fel arfer câi aelodau'r Senedd eu cynnwys ar baneli recriwtio ac felly maent yn ymwneud â'r broses; nid oedd yn briodol cynnwys hyn yn yr Ordinhad o ystyried ei fod yn fater gweithredol.

**916 GRANTIAU A CHYTUNDEBAU YMCHWIL**

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/438 'Grantiau a Chontractau Ymchwil'.

**917 UNRHYW FUSNES ARALL**

## NODWYD Y CANLYNOL

- 917.1 roedd enwebiadau bellach yn cael eu derbyn ar gyfer swyddi gwag gweithwyr yn dechrau ar 1 Awst 2021 ar draws nifer o Bwyllgorau, gan gynnwys y Senedd.

Cadeirydd.....

DYDDIAD 2020